# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

[INSERT LOCATION]

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Mehefin 2023

Amser: 11. - 15.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13601

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jenny Rathbone AS (Cadeirydd)<br>Jane Dodds AS<br>Altaf Hussain AS<br>Sarah Murphy AS<br>Sioned Williams AS<br>Ken Skates AS |
| Tystion: | Alexa Gainsbury, Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Bethan Pell, School Health Research Network<br>Emily Van De Venter, Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Dr Honor Young, School Health Research Network |
| Staff y Pwyllgor: | Rhys Morgan (Clerc)<br>Rachael Davies (Ail Glerc)<br>Angharad Roche (Dirprwy Glerc)<br>Sarah Hatherley (Ymchwilydd)<br>Ben Harris |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriad gan Ken Skates ar gyfer eitemau 1-5 o’r agenda. Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

## 2 Papurau i'w nodi

Nododd yr Aelodau y papurau.

### 2.1 Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ynghylch cyfarfod Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig

### 2.2 Gohebiaeth rhwng yr Arglwydd Bellamy KC, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Profiadau Menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol

### 2.3 Gohebiaeth rhwng y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch y Gymuned Roma a’r Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i wahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 4, 5, a 7 o gyfarfod heddiw.

Derbyniodd yr Aelodau y cynnig.

## 4 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon: trafod yr adroddiad

Trafododd yr Aelodau’r adroddiad, a chytuno arno, yn amodol ar fân newidiadau.

## 5 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

Trafododd yr Aelodau’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion.

## 6 Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: sesiwn dystiolaeth 6

Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan:

Bethan Pell a Dr Honor Young, y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

Alexa Gainsbury ac Emily Van De Ventor, Iechyd Cyhoeddus Cymru

## 7 Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: trafod y dystiolaeth

Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth.